

# Rhestr taliadau ar gyfer asedau trawsyrru trydan newydd

## 1. TALIAD HAWDDFRAINT I DIRFEDDIANWYR

**Ar gyfer pob tŵr ac offer uwchben cysylltiedig:**

Tir gwair parhaol – £6000
(neu gyfran yn seiliedig ar berchnogaeth tir)

Tir âr – £8000
(neu gyfran yn seiliedig ar berchnogaeth tir)

**Fesul offer uwchben**
(pan nad oes angen unrhyw hawliau tŵr):

| 0-49m | 50-99m | 100m+ |
|---|---|---|
| £500 | £750 | £1000 |

**Cebl tanddaearol fesul metr:**

80% o werth y tir amaethyddol y cytunwyd arno dros led yr hawddfraint (gwerth y tir sylfaenol £7500/hectar). Taliadau hawddfraint sylfaenol – £500.

**Rhandaliadau Taliadau Hawddfraint**

- Telir 25% ar ôl cwblhau Cytundeb i Roi Hawddfraint
- Telir 50% ar ôl mynd ar dir i wneud gwaith adeiladu o dan Gytundeb i Roi Hawddfraint
- Telir 25% ar ôl cwblhau Hawddfraint ar ôl y gwaith adeiladu ynghyd ag unrhyw daliad arall y cytunwyd arno eisoes

O dan delerau'r Cytundeb i Roi Hawddfraint ac yn dilyn cael Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, bydd National Grid yn gallu dewis mynd ar eich tir i adeiladu asedau trawsyrru trydan newydd, ac yn dilyn gwaith adeiladu i gwblhau'r Hawddfraint.

**Hawddfraint ar gyfer mynediad dros dir trydydd parti ar gyfer gwaith adeiladu a chynnal a chadw yn y dyfodol:** £1000 fesul tŵr y cafwyd mynediad ato.

## 2. EFFAITH NIWEIDIOL

Mae National Grid yn cydnabod y gall unrhyw waith newydd arfaethedig beri pryder i dirfeddianwyr. Yn ychwanegol i'r taliadau eraill sydd wedi'u hamlinellu, bydd **'effaith niweidiol' ac unrhyw Bennawd Hawliadau priodol** arall yn cael eu hystyried ar sail unigol yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol.



## 3. TALIADAU AR GYFER AROLYGON A GWAITH YMCHWILIO

Er ei fod bob amser yn ceisio cael cytundeb gwirfoddol, mae gan National Grid hawliau statudol i fynd ar dir ar gyfer arolygon a gwneud gwaith ymchwilio. O ganlyniad, nid taliadau i gael hawliau mynediad yw'r taliadau hyn, ond yn hytrach maent yn cydnabod unrhyw ddifrod neu aflonyddwch y gallai'r arolygon a'r gwaith ymchwilio eu hachosi.

Ni fydd asesiadau cychwynnol ar droed ar gyfer pennu gofynion arolygon posib yn arwain at daliad. Fodd bynnag, ar gyfer unrhyw arolygon, tyllau turio ac ati y mae National Grid wedi ymgymryd â nhw, bydd yn gwneud y taliadau canlynol:-

**Arolygon:**

£250 fesul tirddaliad am gyfnod o 12 mis.

Ar gyfer ymweliadau gyda'r nos rhwng 21:00 a 06:00 - £250 am gyfnod o 12 mis.

**Tyllau Turio:**

Taliad untro ar gyfer tyllau turio £250 fesul pob twll turio.

**Tyllau prawf:**

Taliad untro ar gyfer tyllau prawf £250 y twll prawf.

**Offer monitro dŵr:**

£150 y mesurydd am gyfnod o 12 mis fesul tirddaliad er mwyn talu am ymweliadau safle.

**Cytunir ar unrhyw ddifrod sy'n uwch na'r ffigurau** uchod fesul achos (ar ôl cyflwyno prawf o golledion).

## 4. HAWLIADAU COLLI CNYDAU, DIFROD AC AFLONYDDWCH

Caiff y rhain eu talu os gellir profi unrhyw golled.

## 5. CAFFAEL TIR

Cytunir ar gaffaeliadau tir (parhaol neu dros dro) ar sail unigol.

## 6. FFIOEDD ASIANTAU (a delir drwy'r tirfeddiannwr/meddiannwr)

Ffi benodol o £150 ar gyfer gwasanaethau asiantaeth tir proffesiynol am ddychwelyd taflen ddata buddiannau mewn tir sydd wedi'i llenwi a'i llofnodi ar gyfer pob daliad tir, sy'n datgan pob budd mewn tir hysbys.

Un ffi benodol o £250 fesul daliad tir mewn perthynas ag arolygon a gwaith ymchwilio.

Bydd ffioedd asiantau ar gyfer trafod Cytundeb i Roi Hawddfraint ac ar gyfer iawndal ychwanegol (difrod neu effaith niweidiol yn seiliedig ar y ddogfen Talu Ffioedd Syrfewyr y National Grid sydd wedi'i chyhoeddi ar hyn o bryd.

